O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 550 (Cy. 60)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne, Powys i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

*Gwnaed* *22 Chwefror 2013*

*Yn dod i rym* *4 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon a Chefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40 a'r A449) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pwer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A449 (Man i'r Dwyrain o Langrwyne i Raglan, Sir Fynwy a Rhaglan i Fan i'r De o Ganarew, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffyrdd yr A40 a'r A449 yn siroedd Powys a Mynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(1) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 4.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

**Atal**

**8.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Mynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2007(3), wedi eu hatal mewn perthynas â'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Chwefror 2013

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)**Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru
**(3)** O.S. 2007/1333 /Cy.126

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## HYD A LLED Y GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERBYDAU.

i)Y darnau cyfan o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd Cefnffyrdd yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ii)Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de Cefnffordd yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii)Y darn cyfan o gilfan Cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 240 o fetrau i'r gorllewin o drosbont Penpergwm.

iv)Y darn cyfan o gilfan Cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Hardwick Lane.

v)Y darn cyfan o gilfan Cefnffordd yr A40, sydd â'i ganolbwynt 470 o fetrau i'r dwyrain o danffordd sy’n gwasanaethu Dobson's Farm.

## ATODLEN 2

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

i)Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 146 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i Glangrwyney Court hyd at bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Hardwick.

ii)Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii)Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40/A449 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv)Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de Cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 3

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO

i) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 146 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd fynediad Glangrwyney Court hyd at bwynt 134 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Red Barn Road.

ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

iii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40/A449 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de Cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

## ATODLEN 4

### HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 50 MYA DROS DRO

i) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 384 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt tanffordd Dobson's Farm hyd at ganolbwynt trosbont yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40/A449 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Bannut hyd at bwynt 105 o fetrau i'r de-orllewin o borth deheuol Twnelau Gibraltar.

iii) Y darn hwnnw o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 271 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Dixton hyd at ganolbwynt pont wasanaethu Ganarew.

iv) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de Cefnffordd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.